**Cofnodion Wedi'i Gadarnhau o**
**Gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**
**a Gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2023 am 09:00 dros Microsoft Teams**

Wedi'i Gadarnhau

| | | |
|---|---|---|
| **Yn Bresennol** | | |
| Nick Elliott | (NE) | Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol |
| Mohammed Mehmet | (MM) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol) a Chadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Liz Blayney | (LB) | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd Dros Dro |
| Paul Dalton | (PD) | Pennaeth y Gwasanaethau Archwilio Mewnol, Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Mark Dickinson | (MD) | Cydweithrediad GIG Cymru<br>Ar gyfer eitem 3.1 yn unig. |
| Karen Evans | (KE) | Cydweithrediad GIG Cymru<br>Ar gyfer eitem 3.1 yn unig. |
| Angela Fisher | (AF) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid |
| Huw George | (HG) | Dirprwy Brif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid |
| Mike Jones | (MJ) | Archwilio Cymru ar gyfer eitem 5.1 |
| Lucy Jugessur | (LJ) | Rheolwr Archwilio Ariannol, Gwasanaethau Archwilio a Sicrwydd, Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru |
| Jane Matthews | (JM) | Pennaeth Rheoli ac Adrodd Ariannol |
| Reanne Reffell | (RR) | Rheolwr Llywodraethu Dros Dro y Bwrdd |
| Stuart Silcox | (SS) | Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig ar ran RBW |
| Verity Winn | (VW) | Archwilio Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | | |

| | | |
|---|---|---|
| Rhiannon Beaumont-Wood | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd |
| Tracey Cooper | (TC) | Prif Weithredwr |
| Jan Williams | (JW) | Cadeirydd |
| Kate Young | (KY) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) |
| **Ysgrifenyddiaeth** | | |
| Andrew Morton | (RR) | Swyddog Cymorth y Bwrdd |

Dechreuodd y cyfarfod am 09:02

**ACGC 1/2023.03.16 — Croeso ac Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

Agorodd NE y cyfarfod a chroesawu pawb a oedd yn bresennol.

**Nododd** y Pwyllgor yr ymddiheuriadau a ddaeth i law.

**Nododd** y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i helpu â chywirdeb y cofnodion, ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu ar ôl cytuno ar y cofnodion yn y cyfarfod dilynol ym mis Mai 2023.

**ACGC 2/2023.03.16 — Datgan Buddiannau**

Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes wedi'u cofnodi ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.

**ACGC 3/2023.03.16 — Sicrwydd Blynyddol ar gyfer Cyrff a Gynhelir**

**ACGC 3.1/2023.03.16 — Datganiad Sicrwydd Blynyddol Cydweithrediad GIG Cymru**

**Ystyriodd** y Pwyllgor Ddatganiad Blynyddol Cydweithrediad GIG Cymru.

Cyflwynodd HG yr eitem a chroesawodd MD a KE i'r Pwyllgor o'r Cydweithrediad. Darperir y datganiad sicrwydd i'r Pwyllgor yn flynyddol i roi sicrwydd bod Cydweithrediad y GIG, a oedd yn cael ei chynnal gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi cydymffurfio â gofynion y cytundeb lletya, gan gynnwys cydymffurfio â rheolau sefydlog a chyfarwyddiadau ariannol, polisïau a gweithdrefnau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Rhoddodd MD drosolwg o'r adroddiad, gan nodi bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi lletya Cydweithrediad GIG Cymru ers 2015. Wrth grynhoi'r adroddiad, tynnodd MD sylw at waith y Cydweithrediad dros y 12 mis blaenorol, a chadarnhaodd (yn adran 10) gydymffurfiaeth â gofynion y cytundeb lletya.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ynghylch y tanwariant a ddatganwyd ar wasanaethau nad ydynt yn rhai craidd. Rhoddodd KE esboniad am y tanwariant, gan nodi nad oedd angen peth cyllid mwyach gan fod offer wedi'i

Wedi'i Gadarnhau

brynu a thalu amdano mewn mannau eraill, a bod cyllid gan grwpiau gweithredu wedi'i ddychwelyd wrth i gamau gweithredu'r grwpiau gael eu cyflawni. Eglurodd KE fod penderfyniad ymwybodol wedi'i wneud i beidio â gwario arian na fyddai'n werth da am arian, a chadarnhaodd fod yr arian wedi'i ddychwelyd i Lywodraeth Cymru yn unol â'r broses. Dywedodd KE fod y trefniadau gyda Gweithrediaeth y GIG yn rhoi cyfle ar gyfer dull mwy cydlynol ar draws y sefydliadau.

Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad o'r term a ddefnyddiwyd yn y datganiad bod "y Cydweithrediad yn cydymffurfio'n *gyffredinol* â'r telerau". Cadarnhaodd KE fod y Cydweithrediad wedi cydymffurfio'n **llawn** â thelerau'r cytundeb lletya.

Gyda'r cywiriad i'r datganiad a gofnodwyd uchod, diolchodd y Pwyllgor i MD a KE am yr adroddiad a:

- **Chafodd sicrwydd** bod Cydweithrediad GIG Cymru wedi cydymffurfio â rheolau sefydlog a'r cyfarwyddiadau ariannol, polisïau a gweithdrefnau;
- **Nododd**, o 1 Ebrill 2023 y byddai Cydweithrediad GIG Cymru yn rhan o Weithrediaeth y GIG. Byddai'r trefniadau llywodraethu ar gyfer trosolwg ac atebolrwydd yn rhan o drefniadau llywodraethu Gweithrediaeth y GIG. Roedd cytundeb lletya diwygiedig wedi'i gytuno rhwng Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru i egluro'r cyfrifoldebau lletya.

| **ACGC 4/2023.03.16** | **Llywodraethu ac Atebolrwydd** |
|---|---|
| **ACGC 4.1/2023.03.16** | **Diweddariadau ar Drefniadau Llywodraethu** |

Rhoddodd LB ddiweddariad ar nifer o adroddiadau llywodraethu, gan nodi bod y rhain wedi'u cyfuno'n un adroddiad yn dilyn adborth gan y Pwyllgor i symleiddio'r trefniadau adrodd.

Cyflwynodd LB y canlynol i'r Pwyllgor:

- Cofrestri Datganiadau Buddiannau, yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth â'r Polisi Safonau Ymddygiad;
- Diweddariad i Gylchlythyr Iechyd Cymru yn manylu ar grynodeb o gydymffurfiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r cylchlythyron eraill a gyhoeddwyd;
- Diweddariad chwemisol ar Bolisïau Corfforaethol, yn rhoi crynodeb o statws cyfredol polisïau o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor, a chynnydd a blaenoriaethu wrth adolygu polisïau sydd wedi dyddio. Gofynnodd y Pwyllgor a oedd buddiant nad yw bellach yn berthnasol yn dal i fod ar y gofrestr. Eglurodd LB fod datganiadau yn aros ar y Gofrestr am flwyddyn ar ôl i'r buddiant ddod i ben, neu o'r adeg pan adawodd unigolyn y sefydliad; Datganiad Blynyddol ar y Cod Ymarfer Corfforaethol, sy'n darparu hunanasesiad o gydymffurfiaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru â'r cod ar gyfer 2022/23.

Wedi'i Gadarnhau

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Gael sicrwydd** ynghylch gweithredu'r Polisi Safonau Ymddygiad, a nodi y byddai'r Gofrestr Datganiadau o Fuddiant wedi'i diweddaru yn cael ei chyhoeddi ar ôl y cyfarfod;
- **Cael sicrwydd** ynghylch y trefniadau rheoli o ran y broses ar gyfer sicrhau bod y Sefydliad yn cydymffurfio â Chylchlythyrau Iechyd Cymru;
- **Cael sicrwydd** ynghylch y blaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor;
- **Cael sicrwydd** bod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â threfniadau Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraethu Canolog: Cod Ymarfer 2017.

| **ACGC 4.2/2023.03.16** | **Polisïau i'w Cymeradwyo** |
| --- | --- |

Cyflwynodd AF y Polisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** bod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r Cynllun a'r Weithdrefn Ymateb i Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth, a chadarnhaodd y polisi i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor;
- **Cymeradwyo'r** Polisi Atal Twyll, Llwgrwobrwyo a Llygredigaeth.

Cyflwynodd SS Bolisi Cymru-gyfan ar gyfer Yswiriant, Indemniad y GIG a Rheoli Risgiau Cysylltiedig, i'w gymeradwyo

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** bod y Polisi wedi ei gymeradwyo gan y Tîm Arwain;
- **Mabwysiadu** Polisi Cymru-gyfan ar gyfer Yswiriant, Indemniad y GIG a Rheoli Risgiau Cysylltiedig

Cyflwynodd SS y Polisi ar gyfer Difrod i Eiddo Personol i'r Pwyllgor ei gymeradwyo.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** bod y Tîm Arwain wedi cymeradwyo'r Weithdrefn ar gyfer Difrod i Eiddo Personol ac wedi cymeradwyo'r Polisi ar gyfer Difrod i Eiddo Personol i'r Pwyllgor;
- **Cymeradwyo'r** Polisi ar gyfer Difrod i Eiddo Personol

| **ACGC 4.3/2023.03.16** | **Cofnodion a Log Gweithredu o Gyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023 a Materion yn Codi** |
| --- | --- |

Ystyriodd y Pwyllgor Gofnodion a Log Gweithredu'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023.

Wedi'i Gadarnhau

Cadarnhaodd LB fod KY wedi adolygu cofnodion cyfarfod mis Ionawr ac wedi cymeradwyo eu bod yn gofnod cywir o'r cyfarfod yn electronig.

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Gymeradwyo** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Ionawr 2023 fel cofnod cywir;
- **Cymeradwyo** cau'r ddau gam gweithredu a gwblhawyd ar y Cofnod o Gamau Gweithredu.

| **ACGC 4.4/2023.03.16** | **Cofrestr Risgiau Strategol 6: (Seiberddiogelwch)** |
|---|---|

Cyflwynodd SS Risg Strategol 6 (Seiberddiogelwch) ac atgoffodd y Pwyllgor am y diweddariad parhaus o Risgiau Strategol y Sefydliad a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Bwrdd i'w ystyried ym mis Mawrth.

Rhoddodd HG drosolwg o'r risgiau a'r camau gweithredu sydd ar waith. Atgoffodd HG y Pwyllgor o gytundeb y Bwrdd ym mis Ionawr, yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor, i gynyddu'r sgôr tebygolrwydd i 5. Nododd y gwall teipograffyddol o fewn y sgôr risg cynhenid, a ddylai fod yn 20.

Trafododd y Pwyllgor bwysigrwydd y modiwl Hyfforddiant Gorfodol ar Seiberddiogelwch, ac ystyriwyd a ddylid newid y gofyniad fel bod rhaid ei gwblhau yn flynyddol o ystyried y risg uwch i'r Sefydliad yn sgil ymosodiadau seiber. Cytunwyd y byddai'r Grŵp Llywodraethu Gwybodaeth yn ystyried hyn ac yn adrodd eu canfyddiadau i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol i'w hystyried fel rhan o'r drafodaeth ehangach ar hyfforddiant Statudol a Gorfodol.
**Camau Gweithredu: HG/SS/MM**

Gyda'r cywiriad i'r sgôr Risg Cynhenid fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Ystyried** perthnasedd y Gofrestr Risgiau Strategol a Chorfforaethol i gylch gorchwyl y Pwyllgor - Cofrestr Risgiau Strategol 6, gan nodi nad oedd unrhyw Risgiau Corfforaethol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor;
- **Cael sicrwydd** bod risgiau strategol y sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

| **ACGC 5/2023.03.16** | **Archwiliadau Mewnol, Allanol a Chlinigol** |
|---|---|
| **ACGC 5.1/2023.03.16** | **Adroddiad Cynnydd ar yr Archwiliad Allanol a'r Adroddiad Terfynol ar yr Archwiliad Allanol** |

Cyflwynodd VW Adroddiad Cynnydd Archwilio Cymru a'r Cynllun Gwaith Amlinellol ar gyfer 2023-24 i'r Pwyllgor. Cyfeiriodd at y llythyr gan yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch yr Archwiliad o Gyfrifon a oedd hefyd ynghlwm wrth yr adroddiad.

Rhoddodd MJ y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y newidiadau i'r amserlenni archwilio ar gyfer Cyfrifon holl gyrff y GIG yng Nghymru. Byddai

Wedi'i Gadarnhau

newidiadau i safon ISO 315 yn golygu craffu ychwanegol, a fyddai'n arwain at amserlen estynedig ar gyfer cynnal yr Archwiliad, a chynnydd cymesur yn y ffioedd. Sicrhaodd MJ y Pwyllgor mai dim ond cost cynnal yr Archwiliad o fewn y Sefydliad fyddai'r ffi a godir.

Mynegodd NE a HG siom fod y broses archwilio wedi'i gohirio, gan ddisgrifio'r effaith ar y sefydliad a'i staff. Gofynnwyd i gydweithwyr o Archwilio Cymru ystyried pa gamau y gallent eu cymryd i liniaru neu leihau'r effaith ar ICC a'i staff.

Trafododd y Pwyllgor y canlynol:

- Pryder ynghylch yr effaith ar sefydliadau'r GIG gyda'r newid yn yr amserlenni ar gyfer Archwilio'r Cyfrifon;
- Yr amserlenni ar gyfer cyflwyno'r Asesiad Strwythuredig, gan nodi bod y drafft ar hyn o bryd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i wneud sylwadau arno ac ystyried ymatebion y rheolwyr cyn ei gwblhau;
- Y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd gan Archwilio Cymru mewn dau faes: Adfer Gwasanaethau Sgrinio a Chynllunio'r Gweithlu. Nododd y Pwyllgor y gorgyffwrdd â'r pwnc a drafodwyd yn yr adroddiadau hyn, a gofynnodd i Archwilio Cymru sicrhau bod unrhyw gysylltiadau'n gydlynol er cysondeb.

**Ystyriodd** a **nododd** y Pwyllgor Adroddiad Cynnydd Archwilio Cymru; y Cynllun Gwaith Amlinellol ar gyfer 2023-24, a'r llythyrau gan yr Archwilydd Cyffredinol mewn perthynas ag archwilio cyfrifon.

| **ACGC 5.2/2023.03.16** | **Adroddiad Cynnydd yr Adran Archwilio Mewnol a'r Adroddiad Archwilio Mewnol** |
|---|---|

Cyflwynodd PD yr Adroddiad Cynnydd y Adran Archwilio Mewnol. Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad, a oedd yn nodi bod y gwaith a oedd yn mynd rhagddo wedi symud ymlaen yn unol â'r cynllun. Cadarnhawyd hyn gan y tabl metrigau perfformiad a oedd yn dangos lliw gwyrdd ar gyfer pob adroddiad. Nododd y Pwyllgor fod yr Adroddiad Archwilio Mewnol Terfynol ar Iechyd a Diogelwch wedi cael Sicrwydd Rhesymol, a bod Adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol Cronfa Risg Cymru wedi cael Sicrwydd Sylweddol.

Ystyriodd y Pwyllgor Gynllun Gwaith arfaethedig yr Adran Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24, gan nodi y byddai'r adran Archwilio Mewnol yn hyblyg i anghenion a risgiau a blaenoriaethau newidiol y Sefydliad yn ystod y flwyddyn.

Fel Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Sefydliadol a Phobl, tynnodd MM sylw at y drafodaeth ddiweddar ar weithrediad Safonau'r Gymraeg, a'r methiant posibl i ddiwallu safon 17, sef ateb galwadau ffôn derbynfeydd yn Gymraeg yn ôl y gofyn. Teimlwyd y gallai'r Sefydliad elwa o gael archwiliad ar draws y Sefydliad cyfan. Cytunwyd i drafod y mater y tu allan i'r Pwyllgor, a chytunodd LB i gyfarfod â NL a PD, a dod ag ymateb yn ôl i'r Pwyllgor i'w ystyried.

Wedi'i Gadarnhau

**Camau Gweithredu: LB/NL/PD/NE**

Gofynnodd y Pwyllgor i PD gyfleu canlyniadau'r gwaith presennol ar fetrigau perfformiad i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.
**Camau Gweithredu: PD**

Fe wnaeh y Pwyllgor:
- **Gael sicrwydd** ynghylch yr Adroddiad Cynnydd ar yr Archwiliad Mewnol;
- **Nodi'r** tabl Metrigau Perfformiad a ddangosir yn Atodiad B;
- **Nodi'r** graddfeydd sicrwydd i'r adroddiadau ar yr Archwiliad Mewnol terfynol ar Iechyd a Diogelwch (Sicrwydd Rhesymol) a Chronfa Risg Cymru (Sicrwydd Sylweddol);
- **Cymeradwyo** cynllun gwaith 2023/24 a'r Siarter.

| **ACGC 5.3/2023.03.16** | **Traciwr Camau Gweithredu yn sgil Archwiliadau** |
|---|---|

Cyflwynodd LB y Traciwr Camau Gweithredu yn sgil Archwiliadau, a oedd yn cynnwys yr holl argymhellion o'r Archwiliadau Mewnol ac Allanol. Cadarnhaodd mai rôl y Tîm Gweithredol Busnes (BET) oedd goruchwylio a rheoli'r Traciwr hwn, a oedd yn cael ei ddiweddaru o ran cynnydd a wnaed bob chwarter blwyddyn, a chymeradwyodd i ddod â'r camau gweithredu a gwblhawyd i ben.

Cadarnhaodd LB fod crynodeb o'r newidiadau i'r Tracwyr a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol Busnes wedi'u cynnwys yn yr adroddiad cwmpasu er gwybodaeth.

Fe wnaeth y Pwyllgor:
- **Ystyried** y diweddariadau ar gynnydd a'r diwygiadau arfaethedig i'r Cofnod o Gamau Gweithredu yn sgil Archwiliadau, a **chael sicrwydd** ar y cynnydd a wnaed o ran cymryd y camau gweithredu yn dilyn yr Archwiliadau;
- **Nodi'r** newidiadau i'r Cofnod o Gamau Gweithredu yn sgil Archwiliadau, a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol Busnes ar 7 Mawrth 2023 (Atodiad 1a) (a grynhoir yn Adran 3.1 yr adroddiad hwn);
- **Nodi** y cwblhawyd y camau gweithredu a amlinellwyd yn Atodiad 1b (a grynhoir yn Adran 3.2), a gymeradwywyd gan y Tîm Gweithredol Busnes ar 7 Mawrth 2023.

| **ACGC 6/2023.03.16** | **Er Gwybodaeth** |
|---|---|
| **ACGC 6.1/2023.03.16** | **Adroddiad Caffael** |

Fe wnaeth y Pwyllgor:
- **Nodi'r** argymhellion a gynhwyswyd yn yr adroddiad;
- **Cael sicrwydd** bod gweithgarwch caffael yn cael ei wneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

| **ACGC 6.2/2023.03.16** | **Colledion a Thaliadau Arbennig** |
|---|---|

Fe wnaeth y Pwyllgor:

Wedi'i Gadarnhau

- **Nodi** a **chymryd sicrwydd** bod yr holl golledion a thaliadau arbennig wedi'u gwneud yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog

| **ACGC 6.3/2023.03.16** | **Rheoli Risgiau** |
|---|---|

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** bod y Cofrestri Risgiau Strategol a Chorfforaethol yn eu cyfanrwydd wedi'u darparu, a **chymryd sicrwydd** bod Risgiau Strategol a Chorfforaethol y Sefydliad yn cael eu rheoli'n briodol.

| **ACGC 6.4/2023.03.16** | **Adroddiad Perfformiad ar Lywodraethu Gwybodaeth (Ch3)** |
|---|---|

Fe wnaeth y Pwyllgor:

- **Nodi** Adroddiad Perfformiad Llywodraethu Gwybodaeth Chwarter 3 a **chael sicrwydd** yn eu cylch.

Nododd y Pwyllgor fod lefelau staffio'n cael eu hadolygu'n gyson i sicrhau bod y Sefydliad yn gallu bodloni'r gofyniad arno i ymateb i geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

| **ACGC 7/2023.03.16** | **Materion Gweinyddol i Gloi** |
|---|---|

Cynhelir y cyfarfod nesaf ddydd Mercher 10 May 2023 am 10:00

**Nododd** y Pwyllgor y bydd pob un o bapurau'r Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi, **heblaw** am:

- Yr Adroddiad Caffael
- Adroddiad ar Golledion a Thaliadau Arbennig
- Adroddiadau ar Seiberddiogelwch.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor e-bostio adborth ar y cyfarfod at Liz Blayney.

Diolchodd NE i bawb am eu cyfraniadau a daeth â'r cyfarfod i ben.

Daeth y Cyfarfod i ben am 10:07

Wedi'i Gadarnhau